



Adnoddau Cefnogi

Techniquest
Stryd Stuart
Caerdydd
CF10 5BW

F: 029 20 475 475
www.techniquest.org

DOW CORNING



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o'r Sioe

Mae Delyth yn ymweld â'i chefnder a'i modryb ar Ynys y Dreigiau, ond mae ei chefnder Dilwyn wedi mynd ar goll. Helpwch Delyth i achub Dilwyn drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau i ddatrys heriau. Allwch chi achub Dilwyn o grafangau Rugwurse Ddychrynlyd?

Bydd disgyblion yn archwilio defnyddiau, eu priodweddau a'u defnydd drwy gyfrwng gweithgareddau grŵp rhyngweithiol. Mae disgyblion yn ymchwilio drwy ddatrys problemau a drwy ddefnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y byd. Bydd y gweithdy hwn yn caniatáu'r disgyblion i weithio mewn grwpiau i ganfod atebion i'r heriau a rhyddhau Dilwyn.




Hawlfraint

Gall athrawon atgynhyrchu'r deunyddiau canlynol heb dorri hawlfraint, cyn belled y gwneir copïau ar gyfer defnydd yn eu hysgolion eu hunain. Rhaid cael caniatâd Techniquet cyn atgynhyrchu'r deunyddiau hyn at unrhyw bwrpas arall.

Cydnabyddiaethau

Diolch arbennig i Lywodraeth Cymru a Dow Corning am eu cefnogaeth. Diolch i ddisgyblion ac athrawon Ysgol Gynradd Cadoxton, Ysgol Gynradd Palmerston ac Ysgol Gynradd Sili am eu cefnogaeth a'u syniadau.

Hwyl gyda Lluniau




Ym mhob un o'r ffotograffau canlynol, mae Delyth yn gofyn cwestiwn sy'n gysylltiedig â'r gweithdy.

- Rhwch sialens i'r disgyblion ateb y cwestiynau.
- Gofynnwch i'r disgyblion a ydynt yn cofio'r gwrthrych a sut y'i defnyddiwyd yn y gweithdy. Beth maent yn ei gofio amdano?
- Beth wnaethant ddarganfod yn y gweithdy?
- Gall y disgyblion wneud llun o'u hoff ran o'r gweithdy. Gallant ychwanegu swigod meddwl, fel y rhai yn y ffotograff o Delyth, i egluro pam eu bod yn ei hoffi.

Gall disgyblion e-bostio eu sylwadau a'u lluniau o'u hamser yn Techniquist i:

DelythDragon@techniquist.org

Bydd Delyth yn dewis ei hoff e-bostion a ffotograffau a bydd y rhain yn cael eu harddangos yn Techniquist. Cofiwch chwilio amdanynt y tro nesaf y byddwch yn ymweld.



Pa fath o allwedd sydd ei
angen i ryddhau Dilwyn?
Sut wnaethom
ddarganfod yr allwedd?

Beth yw hwn?
Beth yw ei bwrpas?



Pwy yw'r rhain?
Sut wnaethom ni eu rhwystro
rhag dringo'r mynydd?
Pa ddeunydd oedd yr un
gorau i'w ddefnyddio?



Pwy yw hwn?
Beth sydd yn codi ofn
arno?
Pa ddeunydd wnaethom
ei ddefnyddio i godi ofn
arno?



Creu Bwystfilod

Fe wnaeth Delyth gyfarfod â Rugwurse Ddychrynlyd a llawer o fwystfilod eraill ar Ynys y Dreigiau. Allwch chi ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau i wneud collage o un o'r bwystfilod?

Beth sydd ei angen arnoch:

- Taflen o bapur A4 lliw
- Tameidiau o ddefnydd a rhuban
- Siapiau pasta heb eu coginio
- Papurau newydd a chylchgronau
- Plu
- Unrhyw ddefnyddiau eraill y gallwch ddod o hyd iddynt
- Glud
- Creonau neu farcwyr

Beth i'w wneud:

- All eich disgyblion ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau i greu bwystfil?
- Rhowch daflen o gerdyn A4 i bob disgybl.
- Gall y disgyblion lunio eu bwystfil ar y cerdyn cyn dechrau. Gallant lunio'r bwystfil cyfan neu bortread o'i wyneb yn unig.
- Yna gall y disgyblion ddefnyddio glud i ludo gwahanol ddefnyddiau i'r cerdyn i greu eu bwystfil.
- Ar ôl ei orffen, gadewch y collages o'r bwystfilod i sychu.
- Piniwch hwy ar y wal i greu mur o fwystfilod.

Gofynnwch i'r disgyblion:

- Beth yw enw eich bwystfil?
- Pa nodweddion sy'n perthyn i'ch bwystfil?
- Pa wahanol ddefnyddiau ydych chi wedi eu defnyddio i'w greu?
- Pam wnaethoch chi ddewis y defnyddiau hyn ac nid rhai eraill?
- Pa ddefnyddiau eraill allech chi fod wedi eu defnyddio?
- Beth sy'n gyffredin rhwng y defnyddiau yr ydych chi wedi eu cael?
- Beth sy'n wahanol rhwng y defnyddiau yr ydych chi wedi eu cael?
- Pa fwystfil yw'r un mwyaf dychrynlyd?
- Pa fwystfil yw'r un mwyaf cyfeillgar? Pam?



Dryswch Defnyddiau

Chwaraewch gêm Dryswch Deunyddiau Delyth a gweld pa mor gyflym allwch chi redeg at y deunydd cywir.

Byddwch angen:

- Man agored.
- Chwech neu wyth o samplau o wahanol ddeunyddiau neu wahanol wrthrychau.

Beth i'w wneud:

- Gosodwch y deunyddiau neu'r gwrthrychau o gwmpas ymyl y gofod chwarae gyda bylchau cyfartal rhyngddynt.
- Anogwch y disgyblion i sefyll yng nghanol yr ystafell.
- Gwaeddwch briodwedd un o'r deunyddiau. Er enghraifft, gallech waeddi "sgleiniog", "esmwyth" neu "caled".
- Pan fyddwch yn gwaeddi, mae angen i'r disgyblion rasio i ganfod deunydd sy'n cyfateb i'r hyn yr ydych wedi ei waeddi. Yn ddibynnol ar y deunyddiau neu'r gwrthrychau yr ydych wedi eu dewis, gall fod yna fwy nag un ateb cywir.
- Gofynnwch i ddisgyblion egluro'u dewisiadau. Mae'n rhaid i unrhyw ddisgybl sy'n dewis y deunydd anghywir (er enghraifft, rhywbeth caled yn hytrach na rhywbeth meddal) golli un tro.
- Chwaraewch y gêm am tua 10 i 15 munud.

Gofynnwch i'r disgyblion:

- Pa ddeunyddiau a ddefnyddir i wneud dillad? Pam?
- Pa ddeunyddiau a ddefnyddir i wneud dodrefn? Pam?
- Pa ddefnydd a wneir o ddeunyddiau sgleiniog?
- Pa ddefnydd a wneir o ddeunyddiau bras?
- Sut fath o ddeunyddiau fuasech yn eu defnyddio i wneud cwch? A fyddai'r rhain yr un defnyddiau a fuasech yn eu defnyddio i wneud awyren? Pam?



Trefn ar Fwystfilod

- Isod ceir llawer o wahanol fwystfilod. Gyda chymorth oedolyn, torrwrch o gwmpas y lluniau.
- Sut allwch chi osod y bwystfilod mewn grwpiau gwahanol?
- Pam y dewisoch eu trefnu fel hyn?
- Nawr trefnwch hwy i wahanol grwpiau.
- Sut wnaethoch roi trefn arnynt y tro hwn? Pam y dewisoch eu trefnu fel hyn?
- Beth sy'n gyffredin rhwng y bwystfilod hyn? Sut maent yn wahanol?
- A oes unrhyw un o'r bwystfilod sy'n edrych yn debyg i chi?



Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

	Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	Datblygiad Mathemategol	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd	Datblygiad Corfforol	Datblygiad Creadigol
Gweithdy Dirgelwch Defnyddiau	✓	✓		✓	✓	
Lluniau Delyth o'r gweithdy	✓	✓		✓	✓	
Creu Bwystfilod - gweithgaredd ôl- weithdy		✓		✓		✓
Dryswch Defnyddiau - gweithgaredd ôl-weithdy	✓	✓	✓	✓	✓	
Trefn ar Fwystfilod - gweithgaredd ôl- weithdy	✓	✓	✓	✓		✓